

CANOLFAN GWLYPTIR LLANELLI
**CANLLAW
AR GYFER
YMWELIADAU
GRŴP**



WWF

GRÊT AR GYFER GRWPIAU

Mae Canolfan Gwlyptir Llanelli yn cynnig diwrnod allan i'r brenin gan roi'r cyfle i grwpiau agosáu at fywyd gwylt anhygoel tra'n mwynhau golygfeydd trawiadol mewn amgylchedd hamddenol a hygyrch.

Gwasanaeth di-dor

Mae gan Ganolfan Gwlyptir Llanelli staff bwciol pwrpasol i'ch helpu wrth eich bod yn cynllunio'ch diwrnod allan bythgofiadwy.

Buddiannau unigryw i grwpiau

Mae gennym ystod eang o fuddiannau ar gyfer eich grŵp o 12 person neu fwy, gan gynnwys:

- Cyfraddau mynediad gostyngol i grwpiau.
- Ymweliad ymgyfarwyddo am ddim i drefnydd y grŵp.
- Mynediad am ddim ar y diwrnod i drefnydd y grŵp.
- Llefydd parcio di-dâl ger y y fynedfa i goetsis a minibysiau.
- Mynediad am ddim i yrrwr y goets.
- Lluniaeth am ddim i yrrwr y goets.
- Ystod o becynnau arlwygo arbennig i grwpiau (rhaid bwciol ymlaen llaw os gwelwch yn dda).
- Ystod o ddeunydd cyhoedduswydd i'ch helpu i hysbysebu'ch aelodau o'ch taith i'n canolfan gwlyptir.



Hygyrch i bawb

Mae safle Llanelli yn gwbl hygyrch gyda:

- Mannau codi a gollwng pobl anabl, a darpariaeth dda o fannau parcio a toiledau i'r anabl.
- Llwybrau llydan, gwastad a digon o lefydd i eistedd ac ymlacio.
- Staff cyfeillgar sy'n hapus i drafod eich anghenion cyn eich ymweliad, ac i'ch helpu yn ystod eich ymweliad.
- Ystod o guddfannau hygyrch.
- Sgwteri symudedd a chadeiriau olwyn i'w llogi (pan fyddant ar gael). A wnewch chi drafod eich anghenion penodol gyda ni wrth fwciol.
- Gwasanaeth cwrdd a chyfarch.
- Mae croeso i gŵn cymorth cofrestredig.

Sgyrsiau, teithiau a digwyddiadau tymhorol

Mae 'na rhywbeth newydd i'w weld a gwneud bob tymor yng Nghanolfan Gwlyptir Llanelli; ychwanegwch at hyn ystod o sgyrsiau a theithiau dyddiol a bydd eich grŵp yn cael amser gwych pa bryd bynnag y byddant yn ymweld.

CANOLFAN GWLYPTIR LLANELLI

Mae gan ganolfan gwlyptir Llanelli yn Ne Cymru, canolfan sydd wedi ennill gwobrau, olygfeydd trawiadol dros benrhyn Gŵyr, ac mae'n leoliad perffaith ar gyfer diwrnod allan i'ch grŵp, beth bynnag y tywydd! Gallwch fwynhau closio at fywyd gwyllt rhyfeddol, gan gynwys ein casgliad lliwgar o fflamingos y Caribî yn barod ac yn aros am eich grŵp.

Amser bwydo pluog: gyda hadau yn eu dwylo a chasgliad o hwyaid a gwyddau wrth eu traed, bydd eich grŵp yn dwli ar y profiad.

Golygfeydd ysblennydd: dringwch ein tŵr gwyllo am olygfeydd 360 gradd sy'n ymestyn ymhell dros y morfeydd heli trawiadol ac arfordir Cilfach Tywyn at benrhyn Gŵyr.

Peidiwch colli'r cyfle!

Yn y pinc: yn dod ag arlliw pinc i'n gwarchodfa wych, mae ein haid hudol o Fflamingos y Caribî yn barod ac yn aros am eich grŵp.

Amser bwydo pluog: gyda hadau yn eu dwylo a chasgliad o hwyaid a gwyddau wrth eu traed, bydd eich grŵp yn dwli ar y profiad.

Golygfeydd ysblennydd: dringwch ein tŵr gwyllo am olygfeydd 360 gradd sy'n ymestyn ymhell dros y morfeydd heli trawiadol ac arfordir Cilfach Tywyn at benrhyn Gŵyr.

Gwlyptir y Mileniwm: mosäig rhyfedd o lagynau, pyllau, pyllau bas a nentydd sy'n llawn dyfrgwn, crehyrod a channoedd o adar dŵr anhygoel. 'WAW' yw'r unig air amdano!


Gwyllo cysurus: gall eich grŵp wyllo adar diddorol iawn megis crehyrod bach copog, tylluanod bach a gylfinirod o gysur ein cuddfannau cwbl hygyrch. Bydd yr adar a welir yn amrywio o dymor i dymor, felly bydd eich grŵp yn sicr o sbotio rhywogaethau newydd bob tro y byddant yn ymweld â ni!

Gwybodaeth arbenigol: gall eich grŵp fwynhau taith dywysedig ffantastig o'n canolfan i ddysgu mwy am ein hanes a'n bywyd gwyllt.



Vchafbwyntiau a digwyddiadau tymhorol

- **Gwanwyn:** dathlwch bywyd newydd wrth i'r adar ifanc cyntaf ddechrau ymddangos.
- **Haf:** Anturio ar feic a saffaris canŵ. Glöynnod byw a gweision y neidr yn eu hanterth. Cywion fflamingo yn deor.
- **Hydref:** Golygfeydd syfrdanol o adar mudol, gyda'r penllanw yn dod ag adar eiconig megis y gylfinhir yn agos at y cuddfannau.
- **Gaeaf:** Mwynhewch teithiau iachus gyda golygfeydd heb eu tebyg. Hyd at 50,00 o adar dŵr yn bwrw'r gaeaf.



Café a siop

Gorffennwch y diwrnod fel grŵp gyda bwyd a diod blasus yn ein Cegin Glas y Dorlan tra'n mwynhau'r olygfa dros y Gŵyr, cyn ymweld â'n siop anrhegion ardderchog.

Amserau agor

Dewch i ymweld â ni 363 diwrnod y flwyddyn – hynny yw, bob dydd ar wahan i Noswyl Nadolig a Dydd Nadolig.

'Rydym ar agor o 9.30yb – 5yh – mynediad olaf awr cyn amser cau.

Parcio i goetsis a minibysiau

Mae gennym ddigonedd o lefydd parcio AM DDIM i goetsis a minibysiau ger ein canolfan.

Prisiau

Gweler y mewnosodiad gyferbyn am ein cyfraddau mynediad arbennig i grwpiau.



I wybod mwy:

W: wwt.org.uk/llanelligroups

Ffôn: 01554 741087

E: groups.llanelli@wwt.org.uk

Cyfeiriad: Sir Gâr SA14 9SH

SUT I'N CYRRAEDD NI

Cyfarwyddiadau

- Dim ond 12 milltir oddiar yr M4 (cyffordd 48), ac oddiar yr A484 a'r B4304 i Abertawe, mae Canolfan Gwlyptir Llanelli yn lle delfrydol i aros wrth ichi fynd i, neu ddychwelyd o, benrhyn Gŵyr a gallwch ei gyfuno gydag ymweliadau ag Abertawe, Caerdydd ac ardaloedd gwyliau eraill ar hyd yr arfordir.
- Os 'rydych yn Llywio â LLoeren, ein côd post yw SA14 9SH.



Cysylltwch â ni ar y cyfryngau
cymdeithasol @WWTLlanelli